GUIDE DOGS

# Arweiniad codi arian

## i ysgolion a grwpiau ieuenctid




guidedogs.org.uk/learning

## Sut y gallwch helpu trwy godi arian

**Rydyn ni'n darparu gwasanaethau sydd yn newid bywydau i bobl â cholled golwg, eu ffrindiau a'u teuluoedd. Dyma rai o'u storïau:**



"Pan ddechreuodd Guide Dogs weithio gyda Caitlin, roedd yn glir y gallen nhw gynnig cymaint mwy na'r ci. Aethon ni i brofi eu diwrnodau teuluol a dysgu am y gefnogaeth addysgol ychwanegol oedd ar gael i Caitlin, sydd wedi bod yn wirioneddol bwysig."
- Claire, mam Caitlin

Cafodd Guide Dogs eu hapwyntio gan yr awdurdod lleol i gefnogi Caitlin o 5 oed ymlaen. I ddechrau, dysgodd hi sut i greu llun meddyliol o'r ffordd o gwmpas yr ysgol, cyn symud ymlaen i dderbyn hyfforddiant ffon hir.

"Mae'n anodd egluro beth mae ci tywys yn golygu i fi. 'Dwi'n teimlo mor ddiolchgar am Hudson, fy nghi tywys cyntaf, a ddaeth â fi allan o'r tywyllwch ac yn ôl i'r byd lle y gallwn fod yn rhydd i fyw bywyd fel pawb arall."
- Nathan, perchennog ci tywys

**Rydyn ni'n dibynnu ar roddion i barhau â'n gwaith, sydd yn newid bywydau. Mae pob punt a godir yn gweud gwahaniaeth i bobl fel Nathan a Caitlin.**



Nathan a'i gi tywys, Abby

Mae codi arian i Guide Dogs yn hawdd.

## Y cyfan sydd yn rhaid i chi wneud yw:

1. Dewis gweithgaredd
2. Cynllunio digwyddiad
3. Mwynhau codi arian!
4. Rhoi'r arian yn y banc
5. A dyna chi'n newid bywydau!

# Syniadau gwych i godi arian

**Mae llawer o bethau i wneud, ond dyma ambell syniad i gychwyn.**

### Gwerthu cacennau

Temtiwch eich ffrindiau gyda theisennau a bisgedi blasus. Hen dric, ond mae'n ffordd dda o godi arian



### Sialens mewn mwgwd

Gofynnwch i bawb wneud herion dan do neu yn yr awyr iach, a gofyn am rodd fach i gystadlu. Rhowch wobrau i'r enillwyr.



### Gwisgo dillad arbennig

Dewiswch thema fel sioe deledu. Mae'n hawdd i'w drefnu ac mae pawb yn mwynhau gwisgo dillad llai ffurfiol am ddiwrnod.




### Sialens ddarllen

Cewch ofyn i bobl eich noddi am ddarllen nifer o dudalennau mewn diwrnod, neu lyfr cyfan mewn wythnos. Cewch amrywio'r sialens drwy ofyn i bawb yn ei dro ddarllen yn uchel o'r un llyfr.




### Cwis


Mae'n hawdd i drefnu noson gwis, os yw'r atebion cywir gyda chi! Rhaid cadw sgôr ar ôl pob rownd. Ewch i'n gwefan i lawrlwytho'r cwis, sy'n cynnwys rownd arbennig am gŵn tywys.



## Sialens fentro

Gofynnwch i'ch grŵp droi £5 yn £100. Prynwch nwyddau fel cacennau neu dlysau am £5 a'u gwerthu, a rhoi'r elw i ni. Tybed faint o elw allech chi ei wneud ymhen wythnos neu ddwy?





## Sialens flwch matsis

Rhowch flwch matsis diogel (y math a ddefnyddir am gelf a chrefft) a ffurflen noddi i bawb yn eich grŵp. Mae'n gystadleuaeth i gael eich noddi am y swm uchaf, a ffitio'r nifer fwyaf o eitemau yn y blwch. Rydyn ni'n awgrymu gosod rheolau i wahardd eitemau annymunol, neu fwy nag un o bob eitem.


## Diwrnod mabolgampau

Beth am gael eich noddi i feicio, rhedeg neu nofio - neu wneud treiathlon? Gall pobl eich noddi am bob munud neu filltir.




## Enwi'r ci bach

Y cyfan sy angen yw llun o gi bach pert (mae digon ar gael gennym). Gofynnwch am rodd fach er mwyn cael siawns i ddyfalu enw'r ci bach, a chynnig gwobr am yr ateb cywir.




## Sioe Dalent

Cewch drefnu digwyddiad, gwerthu tocynnau a rhoi cyfle i'r holl gymuned fod yn sêr.






## Cewch greu eich digwyddiad eich hunan, fel Ysgol Gynradd Bosmere



Dechreuodd y berthynas rhwng Ysgol Gynradd Bosmere a Guide Dogs ym 1972 pan aeth Judy, perchennog ci tywys, ar daith gerdded gyntaf yr ysgol, a drefnwyd gan un o'r myfyrwyr. Yn sgil y cyfarfod cyntaf hwn, dros 40 mlynedd yn ol, cafodd Judy ei gwahodd i siarad â'r ysgol yn gyson. Siaradodd hi am ei bywyd gyda chŵn tywys, ac mae'r ysgol wedi cefnogi Guide Dogs ers hynny, trwy gynnal digwyddiadau a chodi arian. Bob yn ail flwyddyn, cynhaliodd yr ysgol daith noddedig ar draeth Hayling Island i godi arian i Guide Dogs, ac roedd Judy a'i chi yn eu plith nes iddi farw. "Pan fu farw Judy yn 93 oed, roedd y plant am wneud y digwyddiad yn well nag erioed eleni, er mwyn enwi ci bach er ei chof," meddai Mrs Morgan, athrawes Ysgol Gynradd Bosmere. Dechreuodd aelodau cyngor y myfyrwyr gynllunio nifer o weithgareddau fyddai'n digwydd dros wythnos, gan gynnwys gwerthu cacennau, cystadlaethau, mabolgampau a gwobrau am godi'r swm mwyaf.  Penderfynon nhw y dylai pob myfyrwr wneud y prif weithgaredd, sef llwybr synhwyraidd, mewn mwgwd! Doedd e ddim yn hawdd. Roedd y myfyrwyr yn gwisgo mwgwd o'r cychwyn cyntaf ac roedd rhaid iddyn nhw ddilyn y llwybr trwy'r coed a thwneli, a thros rwystrau. Heb ddim ond ffrind a rhaff, roedd rhaid iddyn nhw symud yn ara deg trwy'r mwd a chael eu profi'n gorfforol ac yn feddyliol. Roedd digwyddiadau'r wythnos yn llwyddiant mawr ac fe gododd y myfyrwyr **£6,211.59**, digon i Enwi Ci Bach er cof am Judy. Diolch i gefnogaeth Ysgol Bosmere, ysgolion eraill a grwpiau ieuenctid, gallwn helpu rhagor o bobl â nam ar y golwg i fyw yn annibynnol.

Os hoffech chi godi arian i Enwi Ci Bach, cysylltwch â ni. Byddwn yn hapus i'ch cofrestru a'ch helpu i gychwyn arni.

## Rhestr siopa

# Gall £8

fwydo ci bach tywys am 10 niwrnod, a'i gadw'n hapus ac yn iach.



# Gall £13

dalu am ffon i blentyn, yn ei alluogi i fynd allan yn annibynnol.



# Gall £25

brynu harnais gwyn, symbol enwog ci tywys cymwysedig.



# Gall £50

dalu am weithgareddau creadigol a synhwyrol llawn hwyl i helpu plant â nam ar y golwg i symud eu cyhyrau mewn ffordd gyfesur.



# Gall £140

brynu pecyn i berchennog ci tywys newydd, gan gynnwys popeth sydd angen arno i ddechrau bywyd gyda'i gi tywys newydd.





### Cychwyn arni

Rhowch wahoddiad i'ch pobl ifanc i ddewis a chynllunio sut i godi arian, Mewn ysgol, gall aelodau cyngor yr ysgol gwrdd i ddewis y gweithgaredd mwyaf poblogaidd. Gall ddod at eich gilydd i gynllunio digwyddiad codi arian helpu grŵp ieuenctid i gwblhau bathodynnau neu sesiynau sgiliau.

### Trefnwch y dyddiad

Gwnewch yn siwr fod digon o amser gennych i baratoi popeth, fel y bydd digon o rybudd i bobl ymuno â chi os ydych chi yn eu gwahodd.

### Dechrau hysbysebu

Mae posteri a gwahoddiadau'n ffordd wych o hysbysebu eich digwyddiad neu weithgaredd.  Gallwn eich helpu i wneud eich defnyddiau trawiadol eich hun. Mae'n hawdd i lawrlwytho'r adnoddau oddi ar ein tudalen codi arian: **www.guidedogs.org.uk/resources/learning-resources/fun-fundraisingideas-and-downloads** Cwblhewch eich manylion a gwasgwch "argraffu". Cewch wahodd y teulu i gyd, hen ac ifanc, neu'ch holl gymuned!

### Cynnal digwyddiad diogel

Fel trefnydd digwyddiad, chi sy'n gyfrifol am gadw pawb mor ddiogel â phosibl. Peidiwch â phoeni, nid yw hi mor anodd â hynny! Am ragor o wybodaeth, a chyngor am drin bwyd, ewch i wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch:

**www.hse.gov.uk a gwefan Asiantaeth Safonau Bwyd: www.food.gov.uk**

Rydyn ni wedi ysgrifennu dogfen, Licensed to Fundraise: **www.guidedogs.org.uk/media/2990/licensed-to-fundraise.pdf** gyda'r holl wybodaeth sydd ei hangen i'ch cadw chi a'r cyhoedd yn ddiogel. Am ragor o wybodaeth, ebostiwch eich cwestiynau i: **learning@guidedogs.org.uk**.

### Mwynhewch godi arian

Mae popeth yn barod gyda chi. Mae'n bryd i fwynhau cynnal eich digwyddiad neu weithgaredd.

### Cynllun Cŵn Bach Graddedig

Codwch £300 i fod yn rhan o Gynllun Cŵn Bach Graddedig, sydd yn dathlu llwyddiant 3 chi tywys sydd newydd gymhwyso. Dilynwch daith y cŵn bychain nes iddynt raddio gyda'u perchennog. Byddwch yn derbyn blwyddiadur y dosbarth, llyfr lloffion, poster mawr dathliadol, 3 phoster o'r graddio a thystysgrif o ddiolch.

### Enwi Ci Bach - Newid Bywyd

Mae gan eich ysgol neu grŵp y cyfle i roi enw i gi bach arbennig iawn a all dyfu i newid bywyd rhywun. Bydd eich rhodd yn helpu Guide Dogs i drawsnewid bywydau pobl sydd yn ddall neu'n rhannol ddall. Ceir dewis o 2 lefel: Rhoi Enw a Cerdded.

### Rhoi Enw

Codwch £1500 i gael enwi ci bach tywys. Byddwch yn derbyn tystysgrif geni gyda'ch enw dewisedig a llun hyfryd o'ch ci bach.

### Cerdded

Am leiafswm o £2500 o rodd, gallwch enwi ci bach tywys a derbyn tystysgrif geni, 3 diweddariad personol a lluniau yn ystod ei flwyddyn gyntaf, nes iddo ddechrau yn yr ysgol hyfforddi, pan gewch lun mewn ffram. Cewch hyd yn oed gwrdd â'r ci bach rydych wedi'i enwi.

### Da iawn - mae'n bryd i roi'r arian yn y banc

**Ar y ffôn:** cerdyn credyd neu ddebyd? **Ffoniwch 0800 953 0113**.

**Siec:** yn daladwy i 'Guide Dogs'. Rhowch manylion eich grŵp ar gefn i siec fel y gallwn anfon llythyr o ddiolch.
**Trwy'r Post i: The Guide Dogs for the Blind Association, Hillfields, Burghfield Common, Reading, RG7 3YG.**

**Banc Barclays:** gallwch fynd â'ch arian neu siec i unrhyw gangen a rhoi y manylion hyn: **Côd didoli 20-65-82 Cyfrif 43870731**, cofiwch roi eich manylion.

**Ar-lein:** creu tudalen rhoi ar-lein **www.justgiving.com/guidedogs**.

Defnyddiwch y côd 'GDAS' am roddion, os gwelwch yn dda. Os oes gennych ddiddordeb yn ein Cynllun Cŵn Bach Graddedig, defnyddiwch y côd 'PUPPYGRAD' wrth fancio unrhyw arian a godir. Cysylltwch â ni os oes gennych ddiddordeb mewn Enwi Ci Bach. Os ydych chi wedi dechrau codi arian tuag at Enwi Ci Bach, edrychwch ar eich llythyr croeso am y manylion i dalu i mewn, neu ddefnyddiwch yr wybodaeth isod i gysylltu â ni.


### Cymorth Rhodd

Os yw'r bobl sydd yn rhoi arian yn talu treth yn y DU, lawrlwythwch ein ffurflen Cymorth Rhodd iddyn nhw o'n gwefan:
**www.guidedogs.org.uk/faqs/gift-aid/**.
Am bob £1 a roddir, cawn 25c yn ychwanegol.

### Dywedwch wrth bawb am eich llwyddiant

Gwnewch son am eich llwyddiant ar dudalen Facebook eich grŵp neu anfon y stori i bapur lleol. Rhowch wybod i ni - hoffem glywed beth rydych chi wedi'i wneud.

# Diolch



### Cysylltwch â ni

Os oes arnoch angen unrhyw help i godi arian, cysylltwch â ni ar **0345 143 0192** neu ebostiwch **learning@guidedogs.org.uk.**

**guidedogs.org.uk/learning**

**facebook.com/teamCF4GDS.**

**twitter.com/teamCF4GDS.**

Registered with FUNDRAISING REGULATOR

# Rwy'n codi arian trwy

## asdasdasd

GUIDE DOGS

**Gwnewch i'ch rhodd fynd ymhellach, heb gost i chi. Os ydych chi'n talu treth yn y DU, gall Guide Dogs hawlio 25c mewn Cymorth Rhodd am bob £1 a roddwch, ar eich holl roddion yn y 4 blynedd galendr ddiwethaf, a nes y clywir yn wahanol.**

Os ydw i wedi ticio'r blwch â'r teitl "Cymorth Rhodd? ✓", rwyf yn cadarnhau fy mod yn talu treth yn y DU, ac os ydw i'n talu llai o Dreth Incwm a/neu Dreth Enillion Cyfalaf na swm y Cymorth Rhodd a hawlir ar fy holl roddion i bob elusen a CChAC yn y flwyddyn dreth honno, deallaf mai fi sydd â'r cyfrifoldeb am dalu unrhyw wahaniaeth. Deallaf nad yw trethi fel TAW na threth cyngor yn cyfrif. Rhowch wybod i ni os nad ydych bellach yn talu swm digonol o dreth incwm a/neu dreth enillion, neu os ydych chi am ganslo'r datganiad yma, neu os ydychchi'n newid eich enw neu gyfeiriad cartref. Diolch.

## Enw llawn + cyfeiriad cartref + cod post + dyddiad a gasglwyd + ✓ = Cymorth Rhodd

giftaid it

| Enw llawn (enw cyntaf a chyfenw) | Cyfeiriad cartref (nid cyfeiriad gwaith) | Cod post | Swm | Dyddiad talu | Cymorth Rhodd |
|---|---|---|---|---|---|
| ALAN SAMPLE | 1 HIGH STREET, SAMPLE TOWN, UK | A11 2BB | £10 | 1/1/2018 | ✓ |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

GUIDE DOGS




Enw gweithiol yw Guide Dogs ar gyfer Cymdeithas Cŵn Tywys i'r Deillion/Guide Dogs for the Blind Association. Swyddfa Gofrestredig: Hillfields, Burghfield Common, Reading, Berkshire RG7 3YG. Cwmni cyfyngedig drwy warant wedi ei gofrestru yng Nghymru a Lloegr (291646) ac elusen wedi ei chofrestru yng Nghymru a Lloegr (209617) a'r Alban (SC038979).